WESP 07
Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Gymraeg | Welsh in Education Strategic Plans - the legislative framework that supports Welsh-Medium Education Provision
Ymateb gan Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Response from Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Gymraeg

**Cyflwyniad**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn falch o'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar y cyd rhwng y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar **Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg - y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi Darpariaeth Addysg Gymraeg**

Mae'r Coleg Cymraeg yn arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru, ac yn cyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion gan gynnwys yr Ysgolion sy'n darparu cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cynhwysol o'r radd flaenaf.

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 ac erbyn hyn mae darpariaeth helaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog wedi ei ddatblygu ar draws pob prif bwnc a ddarperir ym mhrifysgolion Cymru. Yn 2018 derbyniodd y Coleg gyfrifoldeb am Addysg Bellach a Phrentisiaethau ac rydym wedi dechrau gweithredu cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r ddarpariaeth i ddysgwyr yn y sectorau hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Mae gwaith y Coleg felly yn dibynnu'n helaeth iawn ar lwyddiant y sector addysg orfodol i gynnig arlwy addysg Gymraeg deniadol a hygyrch, a thrwy hynny ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion fel eu bod yn gallu elwa'n llawn ar y cyfleoedd sydd iddynt barhau a'u hastudiaethau ôl-16 yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn ogystal, mae rôl y sector addysg orfodol i feithrin hyder, mwynhad a brwdfrydedd mewn perthynas â'r Gymraeg yn ddylanwadol ar agweddau dysgwyr o ran manteisio ar y cyfleoedd ôl-orfodol sydd ar gael iddynt.

Mae'r dilyniant hynny yn ei dro yn bwydo prosesau cynllunio a chyflenwi gweithluoedd y gwahanol sectorau addysg, maes arall sydd o ddiddordeb i'r Coleg, ac sydd, yn ei rhinwedd ei hun, yn un o feysydd ffocws y Cynlluniau Strategol.

Mae'n allweddol felly bod y Cynlluniau Strategol sirol yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer twf addysg Gymraeg a chefnogi'r twf hwnnw. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am chwarae ei ran yn y broses o gryfhau'r prosesau hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau o gwrdd â thargedau uchelgeisiol Cymraeg 2050 ac i ddarparu'r cyfleoedd gorau posib i fyfyrwyr, hyfforddeion a phrentisiaid.

1. **Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bedwaredd Senedd argymhellion yn ei adroddiad ar '[Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg](#)'. A yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella ers hynny?**

   Mae'r  fframwaith ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella yn amlwg ers adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac adroddiadau perthnasol eraill, ac yn arbennig felly yn sgil yr [Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20](#) a gyhoeddwyd yn 2017.

Yn benodol, mae symud oddi wrth dull 'mesur y galw' i flaengynllunio pwrpasol i gynyddu darpariaeth a symbylu twf wedi bod yn gam arwyddocaol. Felly hefyd, ymestyn cyfnod y cynlluniau i ysgogi ymagwedd fwy strategol, tymor-hir, y newidiadau pwysig i'r deilliannau, a'r targedau penodol a osodir yn genedlaethol.

Mae Cynlluniau Strategol (drafft) rhai o'r awdurdodau lleol yn dangos eu bod wedi dechrau ymateb i her y fframwaith deddfwriaethol diwygiedig, wedi gafael yn yr agenda mwy uchelgeisiol ac yn cynllunio'n effeithiol i weithredu ar ei sail. Mae nifer, fodd bynnag, nad ydynt wedi ymateb yn briodol, ac sy'n wan o ran eu dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol (gan gynnwys y sail data a ddefnyddir i osod gwaelodlin), yn brin o ran uchelgais, ac wedi methu creu cynlluniau concrit gyda thargedau meintiol. Gwendid nifer ohonynt yw eu bod yn defnyddio'u Cynlluniau Strategol i addo gwneud y gwaith dadansoddi a chynllunio, yn hytrach na'u bod wedi gwneud y gwaith hwnnw i fwydo mewn i'r gwaith o lunio'r Cynllun Strategol. Rydym o'r farn bod canllawiau Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir yn hyn o beth. Mae cwestiynau'n codi felly ynghylch trefniadau atebolrwydd.

Er gwaetha'r cynnydd mewn rhai mannau a nodir uchod, mae'r Coleg o'r farn bod yna botensial clir am welliannau pellach, a hynny yng nghyd-destun Bil Addysg Gymraeg. Manylwn ar rheiny yng nghwestiwn 4 isod.

**2. I ba raddau y mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymraeg ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050?**

Mae'r Cynlluniau Strategol yn un o'r elfennau cynllunio sy'n anhepgor ar gyfer ymgyrraedd at ganlyniadau a thargedau strategaeth Cymraeg 2050. Croesawn y ffaith fod amserlen y Cynlluniau Strategol erbyn hyn yn cyd-fynd, fwy neu lai, gyda rhaglenni gwaith 5-mlynedd Cymraeg 2050, a Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg (er ein bod o'r farn nad yw'r Cynllun hwnnw yn ddigon uchelgeisiol ar hyn o bryd).

Trwy'r system addysg a hyfforddiant y daw canran sylweddol iawn o'r twf angenrheidiol yn nifer y siaradwyr (Thema 1 Cymraeg 2050) – o'r blynyddoedd cynnar, i addysg statudol, addysg ôl-orfodol, a'r gweithlu addysg ei hun – a rheiny oll yn ganolog i ddeilliannau'r Cynlluniau Strategol. O ran y gweithlu addysg, tra bydd angen denu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r proffesiynau perthnasol, bydd angen yn ogystal datblygu sgiliau iaith aelodau presennol a darpar-aelodau'r gweithlu; bydd hynny hefyd yn cyfrannu at gyrraedd y targedau o ran nifer yr oedolion sy'n dod yn siaradwyr Cymraeg.

Yn ogystal, bydd y system addysg, ar sail y Cynlluniau Strategol, yn ganolog i'r ymdrechion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd (Thema 2 Cymraeg 2050), o ran gweithleoedd addysg, ac hefyd o ran sefydlu arferion ieithyddol ymhlith cyfoedion mewn cyd-destunau amrywiol tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Bydd creu mwy o siaradwyr Cymraeg trwy'r system addysg mewn amrywiol feysydd, gydag arbenigedd mewn ystod eang o feysydd, yn debygol o gefnogi'r gwaith o greu amodau ffafriol i dwf y Gymraeg trwy gryfhau seilwaith (Thema 3 Cymraeg 2050).

Unwaith eto, mae cyfle yma, trwy gryfhau fframwaith y Cynlluniau Strategol, i rymuso'u rôl o ran cyfrannu at ganlyniadau a thargedau Cymraeg 2050. Os yw'r Cynlluniau Strategol am chwarae'r rôl ganolog bwysig y mae ganddynt y gallu i wneud, mae angen i'r fframwaith deddfwriaethol ei hun fod mor rymus ac effeithiol â phosib. Nodwn eto bwysigrwydd trefniadau atebolrwydd digonol; os na fydd y Cynlluniau Strategol yn ddigon uchelgeisiol a phenodol, ac os na fyddant yn cynnwys targedau meintiol mesuradwy, neu os na fydd yr addewidion yn y Cynlluniau'n cael eu gwireddu, ni fyddant wedi chwarae

rôl effeithiol yn y broses o gyfrannu at y canlyniadau a'r targedau yn strategaeth Cymraeg 2050, ac mi fydd cyfle enfawr wedi'i golli.

Manylwn ar ein hawgrymiadau dan gwestiwn 4 isod.

3. **Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwy ffrwd?**

Nid oes gan y Coleg farn am sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r canllawiau newydd ar gategorïau ysgolion yn ôl cyfrwng y ddarpariaeth. Mae'n bwysig nodi nad oedd y canllawiau wedi'u cyhoeddi pan oedd yr awdurdodau lleol yn llunio'r drafft o'r Cynlluniau Strategol i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, felly nid oedd modd iddynt eu crybwyll ond yn y ffordd fwyaf gyffredinol (os o gwbl), hynny yw, ymrwymo i wneud y gwaith categoreiddio pan fyddai'r canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi. Hyderwn y bydd y gwaith categoreiddio hynny wedi digwydd erbyn fersiynau terfynol y Cynlluniau Strategol.

Wrth reswm, nid categoreiddio ysgolion yw nod terfynol y canllawiau, ond sicrhau bod ysgolion yn cael eu categoreiddio er mwyn annog cynnydd o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ystyr cynnydd yn y cyd-destun hwn yw cynyddu canran y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y naill law, a chynyddu canran y disgyblion sy'n dilyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y llall. Sefydlir egwyddor hollbwysig o 'beidio â symud yn ôl', sef na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg nag yn y gorffennol. O safbwynt y Coleg Cymraeg, mae hyn yn greiddiol o ran cynnal a chynyddu nifer y disgyblion sy'n barod i ddilyn cyrsiau addysg bellach, prentisiaethau neu gyrsiau addysg uwch yn y Gymraeg.

Mawr obeithiwn y bydd y canllawiau'n llwyddiannus o ran y nodau a'r amcanion uchod; bydd angen monitro hynny dros y cyfnod i ddod.

Naill ffordd neu'r llall, byddai fframwaith deddfwriaethol cryfach mewn perthynas â'r Cynlluniau Strategol yn gallu atgyfnerthu nodau ac amcanion y canllawiau categoreiddio ysgolion. Byddai gofyn am wybodaeth lawer iawn fwy manwl ynghylch canrannau darpariaeth cyfrwng Cymraeg fesul ysgol, a chynlluniau penodol a meintiol ar gyfer twf, law yn llaw â chynlluniau i hyrwyddo'r ddarpariaeth ac annog disgyblion i ymgymryd â hi, yn gallu bod yn rymus dros ben. Yn yr un modd, byddai gofyn am niferoedd disgyblion sy'n dilyn darpariaeth Gymraeg fesul ysgol, ac yn ddelfrydol, fesul pwnc/Maes Dysgu a Phrofiad, yn rhoi data hynod o werthfawr, ac yn darparu sail gadarn ar gyfer monitro cynnydd.

4. **Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?**

Yng nghyd-destun y Cynlluniau Strategol, mae heriau yn amlygu eu hunain dan bennawd sawl un o'r Deilliannau.

- **Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall**

Mae sicrhau dilyniant o un cyfnod addysg i'r llall yn hollbwysig i lwyddiant y Cynlluniau Strategol ac i Gymraeg 2050. Mae sicrhau'r dilyniant hwnnw, yn enwedig rhwng y sector cynradd ac uwchradd wedi bod yn heriol, ac mae'n briodol bod pwyslais ar hynny yn y Cynlluniau.

Gellid cymryd y cyfle, mewn Bil Addysg Gymraeg, i **weithio tuag at sicrhau llwybrau cyfrwng Cymraeg <u>di-dor</u> o addysg a gofal plentyndod cynnar, drwy addysg statudol i addysg/hyfforddiant ôl-statudol.** Rhan o'r gwaith hwn fydd **sicrhau nad oes llithro yn ôl o lwybr 'iaith gyntaf' i lwybr 'ail iaith' o ran y Gymraeg fel pwnc** wrth drosglwyddo rhwng cyfnodau, gan gynnwys sicrhau nad yw

cymwysterau yn creu cymhelliad ar gyfer llithro o'r fath. Rhan arall o'r gwaith yw **lleihau'r tebygolrwydd bod disgyblion yn newid o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ar gyfer pynciau penodol**, yn aml oddi fewn i'r un sefydliad (e.e. Mathemateg a Gwyddoniaeth, mewn rhai ardaloedd), a allai gwneud parhad i'r camau nesaf yn Gymraeg yn fwy heriol/llai tebygol.

Mae Cymraeg 2050 yn nodi bod data'r cyfrifiad yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynyddu fesul grŵp oedran hyd at 15 oed, ac wedyn yn lleihau, yn gyffredinol, rhwng 16 a 25 oed. Dywed mai un o'i brif amcanion 'yw sicrhau bod llai o bobl ifanc yn colli eu sgiliau Cymraeg wrth symud o addysg statudol i addysg bellach/uwch, a bod rhagor ohonynt yn cyrraedd canol eu hugeiniau wedi dal gafael ar yr iaith' (Cymraeg 2050, tudalen 31).

Trwy roi'r pwyslais yn y Cynlluniau Strategol ar y cyfnodau statudol yn unig, rydym o'r farn bod cyfle pwysig wedi'i golli i ddatblygu a gwella cyfraddau dilyniant hollbwysig o'r cyfnod statudol i'r ôl-statudol, ac i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ffocws penodol ar y cam hwnnw yng ngyrfa myfyrwyr. Mae angen sicrhau bod cydweithio'n digwydd gyda'r Colegau i greu llwybrau dilyniant galwedigaethol 14-19.

**Hoffem weld y Cynlluniau Strategol yn ymestyn eu pwyslais i gynnwys dilyniant rhwng addysg statudol ac addysg/hyfforddiant/gwaith ôl statudol. Gallai hynny gynnwys gofyniad i nodi data cyfredol a thargedau meintiol ar gyfer cynyddu cyfraddau dilyniant, a gofyniad i nodi'r trefniadau cydweithio perthnasol gydag amrywiaeth o bartneriaid.**

- **Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

Yn y Cynlluniau Strategol drafft, prin yw'r targedau a'r cynlluniau i gefnogi a datblygu'r Gymraeg fel pwnc. Mae angen sicrhau cynllunio pwrpasol a rhagweithiol i sicrhau bod unrhyw ddisgybl sy'n dymuno astudio'r pwnc at Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael y cyfle i wneud, a hynny'n hwylus. Ni ddylai niferoedd bach, na threfn 'colofnau dewisiadau' fod yn rhwystr. Yn ogystal, mae angen sicrhau y nodir sut y bwriedir mynd ati i greu a chynnal diddordeb disgyblion yn y pwnc, gan gynnwys cymryd mantais lawn o'r cyfleoedd mae'r Coleg Cymraeg a phartneriaid eraill yn eu cynnig fel rhan o gynllun cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc, dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwendid hwn yn cael ei adlewyrchu yn ogystal yn yr ymdriniaeth o faint o ddisgyblion sy'n cyflawni cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd â'r Gymraeg fel pwnc, mae angen sicrhau y nodir sut y bwriedir hyrwyddo a thanio diddordeb mewn amrediad o bynciau trwy'r Gymraeg, er enghraifft, trwy gydweithio â phartneriaid i gynyddu, ehangu a hwyluso cyfleoedd. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi manylebau ar bob lefel astudio o TGAU i Addysg Uwch, gyda deunyddiau hyrwyddo ac ystod o weithgareddau sy'n cyfoethogi'r profiad o astudio'r pwnc, i greu cymhelliant i astudio pwnc ac i barhau i wneud i'r camau nesaf.

**Awgrymwn y gallai fframwaith y Cynlluniau Strategol gael ei gryfhau i fod yn llawer mwy penodol a rhagnodol ynghylch y gofynion cynllunio, pennu targedau meintiol, adrodd a monitro o ran cymwysterau.**

**Byddai hynny'n seiliedig ar ofyniad i gynyddu, ehangu a hwyluso opsiynau i ddysgwyr, gan gynnwys trwy gydweithio â phartneriaid, a defnyddio strategaethau hyrwyddo effeithiol. Mi fyddai angen gwneud y cysylltiad gyda'r gofyniad yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru i symud dysgwyr ymlaen ar hyd y continwwm ieithyddol, dros amser, ac i ysgolion yn ogystal symud ar hyd**

**y continwwm ieithyddol trwy gynyddu cyfran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chyfran y dysgwyr sy'n dilyn y ddarpariaeth.**

**Pan ddaw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i fodolaeth yn 2023, hoffem weld gofyniad i gynllunio ac adrodd yn erbyn deilliant cyfatebol addas yn yr holl sectorau perthnasol, gan gynnwys sicrwydd bod data addas ar gael i wneud hynny'n bosib.**

- **Deilliant 7: Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn rhoi cryn bwys ar y Cynlluniau Strategol fel rhan o'r prosesau ar gyfer cynyddu niferoedd y staff addysgu. Noda ofyniad i awdurdodau lleol 'Cynllunio'r gweithlu cyfrwng Cymraeg fel rhan o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg' (tudalen 41). Ymhellach, cyfeiria at yr angen i 'ddadansoddi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol a gweithio gyda nhw er mwyn gwella dadansoddi data ar lefel leol'.

O ran y cyntaf o'r rhain, credwn ei fod yn bwysig cydnabod yn glir bod cynllunio'r gweithlu addysg, i raddau helaeth, tu hwnt i rôl a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol, a bod yn rhaid i hyn ddigwydd ar lefel genedlaethol, trwy sefydliadau cenedlaethol.

Mae'r ail, serch hynny, yn sicr yn gyfrifoldeb pwysig ar awdurdodau lleol. Mae'n gwbl briodol a realistig i osod y disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn darparu data, gwybodaeth, dadansoddiad a rhagamcanion i fwydo system o gynllunio cenedlaethol.

Y broblem y gwelwn ni o ran cyflawni'r rôl bwysig hon, yw nad yw fframwaith deddfwriaethol y Cynlluniau Strategol yn ddigon manwl a rhagnodol i sicrhau'r mathau o ddata, gwybodaeth, dadansoddiad a rhagamcanion fyddai'n angenrheidiol er mwyn cynllunio'n effeithiol ar lefel genedlaethol. Mae'r angen i osgoi dyblygu data sydd eisoes ar gael mewn mannau eraill yn ffactor i'w ystyried hefyd.

Y duedd yn nifer o'r Cynlluniau Strategol newydd yw nodi pwysigrwydd sicrhau gweithlu addas ar gyfer yr ysgolion presennol. Hyd yn oed yn y Cynlluniau Strategol hynny sy'n nodi cynlluniau pendant ar gyfer agor ysgolion newydd, neu symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith, digon tebyg yw'r duedd. Nid oes cyfeiriadau at drosiant staff a chyfraddau ymadawiadau. Mae'r ddogfen atodol i Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg sy'n crynhoi'r elfennau perthnasol a'r Cynlluniau Strategol yn dangos pa mor anghyson ac arwynebol yw'r rhannau hyn o'r Cynlluniau Strategol, a pha mor anaddas ydynt fel sail ar gyfer cynllunio yn eu ffurf bresennol.

Er mwyn i'r Cynlluniau Strategol fedru gwneud y cyfraniad mwyaf adeiladol at brosesau cynllunio cenedlaethol, **rhaid sicrhau cysondeb o ran cynnwys a methodoleg fesul awdurdod, felly rhaid bod llawer yn fwy manwl a rhagnodol o ran yr hyn a ddisgwylir. Byddai'n fanteisiol petasai hyn yn cwmpasu'r gweithluoedd addysg cyn-orfodol (Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar), gorfodol, ac arbenigol (e.e. ADY), ac is-gategorïau oddi fewn i bob un ohonynt. Os yw ysgolion ac awdurdodau lleol yn darganfod bod prinder staff sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg i ddarparu cyfleoedd cydweithio gyda'r sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, byddai'n fanteisiol bod hynny'n cael ei gofnodi yn y Cynlluniau Strategol yn ogystal.**

Er nad yw Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn ddigon uchelgeisiol na phellgyrhaeddol, yn ddi-os mae'n cynrychioli cam pwysig ymlaen. Gan adeiladu ar y Cynllun, mae'r Coleg o'r farn bod modd mynd ymhellach eto i gryfhau prosesau cynllunio'r gweithlu addysg, ac yn arbennig felly'r gweithlu addysg Cymraeg. Mae'r dadansoddiad data sy'n cyd-fynd â'r Cynllun yn rhoi'r cyfle i adnabod yr anghenion o ran faint o athrawon sydd angen eu hyfforddi bob blwyddyn, a'r bwlch

brawychus rhwng y niferoedd hynny a'r rhai sy'n cael eu hyfforddi'n flynyddol: mae angen symud o oddeutu 250 o hyfforddeion y flwyddyn i bron i 600. Bydd gwneud hynny'n gofyn am weithredu radical a chynllunio o'r newydd, yn hytrach nag ymgeisio i wneud yr hyn sydd wedi bod yn cael ei wneud ers blynyddoedd yn fwy effeithiol ac yn fwy cydlynus.

**Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Coleg o'r farn bod potensial gan Fil Addysg Gymraeg i symud yr agenda ymlaen ymhellach, gyda phwyslais ar ddyraniad cyfrifoldebau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol clir a strategol, a fframwaith rhagnodol, manwl. Gallai gwmpasu hyfforddiant cychwynnol a dysgu proffesiynol/yn y gweithle, yn ogystal â sut i fesur sgiliau ieithyddol. Byddai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn barod i dderbyn cyfrifoldebau arweiniol am agweddau o'r gwaith hwn.**

Tu hwnt i fframwaith y Cynlluniau Strategol, mae nifer o heriau yn amlygu eu hunain o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- **Her, craffu ac atebolrwydd**

Bydd angen bod yn glir beth yn union yw statws gwahanol ymrwymiadau yng nghyd-destun y Cynlluniau Strategol, pwy yn union sy'n craffu ar weithredu yn erbyn yr ymrwymiadau, a pha fecanweithiau atebolrwydd sydd ar gael i sicrhau gweithredu rhesymol. Rhaid sicrhau yn ogystal, bod y data angenrheidiol ar gael yn hwylus, a phwy sy'n casglu ac adrodd ar y data. Rhaid i hyn oll fod yn rhan ganolog ac echblyg o fframwaith y Cynlluniau Strategol.

- **Cwricwlwm i Gymru, Camau Cynnydd (continwwm i ddysgwyr), Continwwm ysgolion/Categorïau yn ôl cyfrwng darpariaeth**

Mae dirfawr angen arweiniad cenedlaethol cliriach, manylach a chadarnach ynghylch yr elfennau uchod yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru, a gwaith i sefydlu'r cyd-gysyllted rhyngddynt.

O sicrhau dealltwriaeth gyson o'r rhain ledled y system addysg, a chefnogaeth briodol i weithredu, yn ogystal ag unrhyw ysgogiad a chymhellion oddi fewn i'r system, byddai modd manteisio ar yr holl elfennau hyn i symud y system yn ei flaen o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg.

- **Cymwysterau**

Yng nghyd-destun diwygio 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' bydd angen parhau i gydweithio gyda Chymwysterau Cymru i sicrhau bod amrediad priodol o gymwysterau, gan gynnwys mewn meysydd galwedigaethol (14-16 oed, ac 16+), ar gael a hynny ar y lefelau priodol.

Bydd angen cadw golwg ar ddatblygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg fel pwnc yn ogystal. Golyga hynny sicrhau cymwysterau priodol yn y cam cyntaf o ddiwygio, a gweithrediad priodol o'r cymwysterau hynny, gan gynnwys mecanweithiau i osgoi llithro am yn ôl a newid o lwybr 'iaith gyntaf' i lwybr 'ail iaith' waeth beth yw categori ieithyddol yr ysgol. Gall y Cynlluniau Strategol fod yn allweddol yn hyn o beth o gryfhau'r fframwaith trwy Fil Addysg Gymraeg.

Cam pellach yn y broses fydd symud tuag at un cymhwyster i bawb, dros amser – sy'n gysylltiedig gyda'r angen i wneud cynnydd o ran y continwwm iaith i ddysgwyr (Camau Cynnydd y Cwricwlwm) ac i symud ysgolion ar hyd y continwwm mewn perthynas â'r categorïau.

- **Addysg Gymraeg i bawb**

Gall Bil Addysg Gymraeg gynnig cyfle pwysig i ddatgan bod gan bob dysgwyr yng Nghymru gyfle i gael mynediad at addysg Gymraeg, a hynny, yn gynyddol, ar bob lefel addysgol, ac o fewn cyrraedd hwylus.

- **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

  Mae gwelliannau diweddar a gyflwynwyd i'r Bil yn gosod cyfrifoldeb ar y Comisiwn newydd mewn perthynas â'r Gymraeg.

  Bydd angen sicrhau bod y Comisiwn yn adlewyrchu'r nodau a osodwyd ynghylch cyfraddau dilyniant drwy'r Cynlluniau Strategol, gan gynnwys mewn partneriaeth gydag ysgolion.

  Bydd cyfrifoldeb gan y Comisiwn i ymgynghori a chydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y maes hwn.

**Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr**
**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**24 Mehefin 2022**